## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer unigolion sy'n rheoli gweithrediadau rhaglen lys effeithiol.  Mae'r rôl hon yn cynnwys drafftio, amserlennu, adolygu ac addasu'r rhaglen lys.

Bydd hyn yn berthnasol i lysoedd a thribiwnlysoedd o feintiau amrywiol ac amrywiaeth eang o anghenion o ran adnoddau a busnes.

Weithiau, cyfeirir at y term "rhaglen" fel "rhestr llys" neu "amserlen", ac fe'i defnyddir weithiau yng nghyd-destun (a) neilltuo sesiynau neu achosion o fewn mathau o lys mewn rhaglen strwythuredig neu (b) rheolaeth weithredol y rhaglen bob wythnos/bob dydd (h.y. dyrannu adnoddau barnwrol/ystafelloedd llys/staff, trefnu busnes ad hoc, trosglwyddo achosion rhwng llysoedd, ac ati).

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal eich gwybodaeth a'ch cymhwysedd o ran rheolaeth weithredol rhaglenni llys
2. darparu a dadansoddi data i lywio amserlennu gweithgareddau rhaglennu llys, i gynnwys:
2.1 y capasiti y mae'n rhaid i'r rhaglen ddelio ag ef
2.2 amlder y mathau o lys sydd eu hangen
2.3 terfynau'r rhaglen o fewn y cyfyngiadau a osodwyd
2.4 yr adnoddau sydd ar gael
3. adolygu a datblygu ystadegau lleol i wella effeithiolrwydd rhaglennu ac at ddibenion adolygu rhaglenni, yn unol â gofynion sefydliadol
4. pennu amlderau gofynnol y mathau o lys, yn unol â gofynion sefydliadol
5. pennu p'un a yw'n ymarferol rhaglennu gwahanol fathau o lys ar wahanol amseroedd ac mewn lleoliadau gwahanol ar yr un diwrnod, yn unol â gofynion sefydliadol
6. paratoi a datblygu rhaglenni llys, yn unol â gofynion sefydliadol
7. cysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid i nodi gofynion llys, yn unol â gofynion sefydliadol
8. nodi adnoddau barnwrol a rhanddeiliaid sydd ar gael, yn unol â gofynion sefydliadol
9. dyrannu adnoddau barnwrol, yn unol â gofynion sefydliadol
10. diwygio rhaglenni llys, yn unol â gofynion sefydliadol er mwyn:
10.1 bodloni targedau busnes
10.2 pennu a ellir gwneud arbedion effeithlonrwydd i leihau oedi wrth brosesu busnes llys
10.3 monitro perfformiad a nodi meysydd ar gyfer gwella busnes
10.4 cynnwys unrhyw fusnes ad hoc
11. ceisio cymeradwyaeth rhaglenni llys, yn unol â gofynion sefydliadol
12. cadw gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
13. cyfleu rhaglenni llys i gydweithwyr a rhanddeiliaid a'u rhoi ar waith, yn unol â gofynion sefydliadol
14. ymateb i unrhyw ymholiadau am raglenni llys, yn unol â gofynion sefydliadol
15. mesur effeithiolrwydd rhaglenni llys, yn unol â gofynion sefydliadol
16. ceisio adborth ar effeithiolrwydd rhaglenni llys, yn unol â gofynion sefydliadol
17. darparu gwybodaeth am effeithiolrwydd rhaglenni llys i gydweithwyr a rhanddeiliaid, yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich rôl, eich cyfrifoldebau a'ch cymhwysedd, ac i bwy i ofyn am gymorth a chyngor pan fydd angen 2. deddfwriaeth, arweiniad a gweithdrefnau sefydliadol sy'n berthnasol i rôl y swydd 3. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol sy'n ymwneud â rheoli rhaglenni llys 4. y data a'r wybodaeth fydd yn cael eu casglu a'u dadansoddi i lywio rhaglennu llys 5. pwysigrwydd cynnal cyfrinachedd 6. y gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni llys 7. pwy i hysbysu am newidiadau rhaglen lys 8. amrywiaeth y llysoedd/tribiwnlysoedd o fewn eich maes cyfrifoldeb a'r gweithdrefnau ynddynt 9. amrywiaeth yr adnoddau mewn llysoedd a thribiwnlysoedd o fewn eich maes cyfrifoldeb 10. rolau a chyfrifoldebau defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd o fewn eich maes cyfrifoldeb 11. argaeledd a safonau adeiladau ac offer cysylltiedig 12. y protocol gweithredu y cytunwyd arno'n lleol neu'n genedlaethol ar lwythiadau ar gyfer mathau penodol o fusnes a'r modd y mae hyn yn effeithio ar raglenni llys 13. argaeledd rhanddeiliaid mewn achosion cymhleth neu hir 14. y targedau sy'n effeithio ar raglenni llys 15. effaith llys uwch yn chwilio am adeiladau o fewn eich cyfleusterau 16. yr angen am Lysoedd Arbenigol 17. achosion wedi'u cyfyngu gan amser a gofynion busnes ad hoc 18. gofynion gwyliau o ran llys gwarchodaeth 19. dulliau amgen mewn rhaglennu llys a sut i ad-drefnu llysoedd 20. yr arweiniad ar raglennu llysoedd a rhoi newid ar waith yn effeithiol 21. protocolau a'r cylchoedd gwaith ar gyfer grwpiau defnyddwyr llys

Rheoli rhaglenni llys

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ CP1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Clerc Siryf, Rheolwr Llysoedd |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | Rhaglennu llys, data ystadegol, ystafelloedd llys, achosion llys. |